



# Polisi PMG

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu  
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau*  
*See Policy Review Timetable*

**Polisi a Chanllawiau Addysgu LAC**  
(*Looked After Children* – Plant sy'n derbyn gofal)

**Mae plant a phobl ifanc sydd yn 'derbyn gofal' naill ai wedi eu cymryd mewn gofal gan yr Awdurdod Lleol, neu wedi eu lleoli yno yn wirfoddol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn byw gyda rhieni maeth, ond mae nifer fechan ohonynt mewn cartrefi plant, yn byw gyda pherthynas teulu, neu hyd yn oed yn ôl gyda'r rhiant/rhieni. Bydd gan y LAC reolwr gofal â chyfrifoldeb dros eu cynllun gofal.**

Mae Ysgol y Dyffryn Conwy a'r Corff Llywodraethol yn ymrwymedig i ddarparu addysg o safon i bob un o'r dysgwyr. Mae hyn yn seiliedig ar gyfleoedd cyfartal, mynediad a deilliant. Cydnabyddir bod yna gryn dipyn o dangyflawni ymhlith LAC (yn genedlaethol) pan y cânt eu cymharu â'u cyfoedion, a'u bod yn fwy tebygol o gael eu gwahardd na'u cyfoedion. Mae'n ddyletswydd arnom i ddiogelu ein LAC, i hybu eu cyrhaeddiad addysgol, ac i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn potensial. Dylid eu galluogi i fod yn iach ac yn ddiogel, i fwynhau a llwyddo, i gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas ac i fod yn economaidd gadarn. Drwy gydweithio â'r Awdurdod Lleol mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i gyflawni sgiliau magu da i ddarparu dyfodol gwell iddynt. Gwneir hyn drwy'r chwe egwyddor:

1. Blaenoriaethu addysg.
2. Meithrin disgwyliadau uchel.
3. Cynhwysiad – newid a herio agweddau.
4. Ymdrech i gael parhad a sefydlogrwydd.
5. Ymyrraeth gynnar drwy flaenoriaethu camau gweithredu.
6. Gwrando ar y plentyn / person ifanc.

**Ffactorau Allweddol:**

1. Sicrhau bod gan yr ysgol athro dynodedig â chyfrifoldeb dros LAC
2. Sicrhau bod gan yr ysgol lywodraethwr â chyfrifoldeb dros y LAC.
3. Sicrhau bod PEP (Cynllun Addysg Personol) mewn lle i bob LAC

Yn Ysgol y Dyffryn Conwy gweithredir yr athrawes ddynodedig yw Mrs Rhian Evans, hi hefyd yw Dirprwy Athro Dynodedig Amddiffyn Plant yr ysgol a Cydgysylltydd ADY yr ysgo. Mae cyd weithio agos rhwng yr aelod dynodedig a staff allweddol eraill er enghraifft Pennaeth Cynorthwyol Lles a Dysgu, a phenaethiaid blwyddyn yn ogystal a'r Pennaeth a'r Dirprwy. Cyfunir rôl un llywodraethwr i fod â chyfrifoldeb/cyswllt Amddiffyn Plant a LAC.

**Rôl a Chyfrifoldeb yr Athro Dynodedig** (mewn cydweithrediad â'r uchod):

- Bod yn eiriolwr i'r LAC, neu dderbyn gwybodaeth gan eiriolwr addas.
- Cadw'r rhestr LAC yn gyfredol. Bydd hon yn cynnwys:
  - Statws y gofal
  - Enw'r gweithiwr cymdeithasol, swyddfa a rhif ffôn
  - Rhif ffôn cyswllt, e.e. rhiant, rhiant maeth, cyswllt cartref plant
  - Cynllun Gweithredu ADY
  - Canlyniadau asesu cychwynnol a phrofion
  - Presenoldeb
  - Gwaharddiadau (os yn berthnasol)
- Sicrhau bod PEP (Cynllun Addysg Personol) addas mewn lle gogyfer pob LAC, a'i fod yn gydnaws â'r Cynllun Gofal. Dylai hefyd gynnwys unrhyw gynllun addysgol arall, e.e. ADY, cynllun bugeiliol, ayb.
- Sicrhau cynrychiolaeth staff mewn adolygiadau, a bod yr aelod penodedig wedi paratoi adroddiad o flaen llaw i hyrwyddo parhad a sefydlogrwydd yr addysg.
- Mynnu cyfarfodydd brys â'r personau priodol pe cyfyd achos o bryder.

- Os bydd LAC yn trosglwyddo i ysgol arall, bydd blaenoriaeth i drosglwyddo'r holl ddogfennaeth berthnasol ar fyrder.
- Sicrhau bod canllawiau mewn lle i adnabod unrhyw dangyflawni, a blaenoriaethu strategaethau ymatebol er lles yr unigolyn.
- Cadw'r holl staff yn gyfredol ag unrhyw wybodaeth am LAC, os yn briodol ac yn berthnasol i'r addysgu. Sicrhau cyfrinachedd lle bo hynny'n briodol.
- Sicrhau bod gwrandawriad teg yn cael ei roi i bob LAC, ynghyd â phob plentyn arall, a'u bod yn cael cyfleoedd cyfartal i ofal a chefnogaeth fugeiliol.
- Cadw'n gyfredol â deddfwriaethau yn ymwneud â LAC.
- Adrodd yn ôl yn flynyddol i'r aelod cyswllt ar y corff Llywodraethol.
- Hybu cyfranogiad allgyrsiol y LAC mewn cydweithrediad â'r cefnogwr dysgu.
- Sicrhau mynediad i arholiadau allanol mewn cydweithrediad â'r athrawon pwnc.
- Cynghori staff a'r Uwch Dim Arwain ar faterion penodol

#### **Cyfrifoldeb yr holl staff:**

- Fel gyda phob dysgwr arall, i gael disgwyliadau uchel, ac i ddathlu llwyddiannau.
- Gwerthfawrogi cyfrinachedd a sicrhau cefnogaeth sensitif.
- Ymateb yn brydlon i gais yr athro dynodedig am wybodaeth.
- Cysylltu â'r athro dynodedig mewn achos o bryder am LAC
- Sicrhau sefydlogrwydd a llwyddiant y LAC yn y gwaith/profiadau a ddarperir.
- Hybu hunanwerth.
- Deall natur materion a all effeithio ar ddysgu'r LAC.

#### **Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol:**

- Enwebu cynrychiolydd ar gyfer LAC
- Sicrhau bod pob llywodraethwr yn ymwybodol o anghenion cyfreithiol a chanllawiau addysgu LAC.
- Dyrannu adnoddau addas i ymateb i anghenion LAC
- Sicrhau bod polisiâu eraill yr ysgol yn cefnogi anghenion LAC.
- Derbyn gwybodaeth ddiennw am LAC, a pharchu'r cyfrinachedd.
- Cefnogi'r prifathro, yr athro dynodedig, a holl staff yr ysgol i sicrhau cydnabyddiaeth o anghenion LAC, a bod yr anghenion rheini yn cael eu datrys.

#### ***Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â pholisiâu a chanllawiau eraill yr ysgol:***

- |                                    |   |
|------------------------------------|---|
| 1. <i>Polisi Amddiffyn Plant</i>   | 2. <i>Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth Gadarnhaol</i> |
| 3. <i>Polisi gwrthfwlio</i>        | 4. <i>Polisi ADY</i>                                |
| 5. <i>Polisi Dysgu ac Addysgu</i>  | 6. <i>Cod Ymddygiad</i>                             |
| 7. <i>Cytundeb Ysgol / Cartref</i> |   |

#### **Rolau Allweddol**

**Mr Owain Gethin Davies (Pennaeth), Mr John LI Roberts (Dirprwy Bennaeth), Mrs Rhian Evans (Athro Dynodedig ar gyfer Gofal Plant), Mr Roger Beech (Pennaeth Cynorthwyol Lles a Cynnydd Disgyblion), Mrs Leah Jones, Mrs Elin Atherton, Ms Catrin Rowlands, Mrs Glenda Barlow, (Rheolwyr Dysgu a Chynnydd Blwyddyn)**